# *e*proffil

## gogledd cymru





rhifyn 3


**ALLAN**


cynnwys



2 
rhagair

3 
dyffryn silicon ym mangor

4 
cyfrinachau hufen iâ


5 
kk yn trechu ei gystadleuwyr


6 
cyrchfan i feicwyr mynydd


7 
rasio ymlaen


8 
gwneuthurwyr gwydr 'gwyrdd'

9 
gwydr gyda'r gorau

10 
llwyddiant john

11 
dyfodol disglair

12 
pŵer ar ynys môn

13 
cysylltiadau

Aneurin Phillips...

# Rhagair

“Mae amgylchedd o safon uchel yn hybu twf ac yn hybu swyddi”

Dyna farn Aneurin Phillips, Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a oruchwyliodd y gwaith o greu Hafod Eryri, y Ganolfan Ymwelwyr hynod gwerth £8.3 miliwn ar gopa Eryri sydd wedi’i chanmol yn eang.

Mae’n tynnu sylw at y ffaith fod amgylchedd naturiol y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru yn cynhyrchu gwerth £177 miliwn o incwm ac yn cynnal 12,000 o swyddi heb gynnwys twristiaeth, yn ôl yr adroddiad Gwerthfawrogi Ein Hamgylchedd.

Meddai: “Mae’r effaith y gall amgylchedd deniadol ei chael ar ddenu busnesau ac unigolion i sefydlu yn yr ardal yr un mor bwysig.

“Mae’r gwrthgyferbyniad a geir yng nghefn gwlad Gogledd Cymru, lle gallwch fod ar gopa mynydd yn y bore ac ar y traeth yn y prynhawn, yn bodloni awydd amryw o bobl am ansawdd bywyd da ac amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden i’w blasu.

“Mae atyniadau Gogledd Cymru i fusnesau sy’n dymuno ymsefydlu yma yn bur amlwg. Ychwanegwch ddiwylliant yr ardal at hynny ac rwy’n teimlo fod y gyfrinach ar gyfer llwyddiant yn ein dwylo.

“Mae swyddogaeth hollbwysig i’r atyniadau yma hefyd o ran un o sbardunau mwyaf economi Gogledd Cymru, sef twristiaeth.”

Mae data Parc Cenedlaethol Eryri yn dangos mai twristiaeth yw’r sector economaidd mwyaf, sy’n creu bron i £400 miliwn bob blwyddyn ac yn cynnal rhyw 8,000 o swyddi.

Meddai Aneurin: “Defnyddio’r amgylchedd naturiol yw’r allwedd i gynnal ein cyfran o’r farchnad; yn enwedig y sector gweithgareddau awyr agored, sy’n tyfu’n gyflym.

Dylai’r prosiect Canolfannau Rhagoriaeth Gwynedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy’n defnyddio arian cydgyfeiriant er mwyn datblygu bothau gweithgaredd yng Ngogledd Orllewin Cymru, atgyfnerthu hyn.

“Rwy’n pwysleisio bod angen cryf i bobl leol fod yn rhan o’r sector, trwy sefydlu busnesau newydd a thrwy weithredu fel hyfforddwyr a thywyswyr i bobl sy’n awyddus i ddatblygu eu sgiliau neu grwydro’r ardal fel rhan o’u gwyliau.

“Er mwyn gwneud y gorau o’r cyfleoedd yma mae angen datblygu’r seilwaith fel y gall busnesau ymsefydlu a thyfu.

“Mae rhwydwaith o lwybrau cerdded a mynedfeydd yn hollbwysig ond mae angen cryfhau math arall o rwydwaith fel elfen allweddol.

“Mae’r potensial y mae’r rhyngrwyd yn ei gynnig a’r angen i ddatblygu’r prosiect Fibrespeed ar hyd yr arfordir yn aruthrol a rhaid buddsoddi ar draws Gogledd Cymru er mwyn sicrhau bod y dulliau technoleg gwybodaeth modern gorau ar gael fel y gall busnesau bach ddatblygu yn ein cymunedau gwledig, ac er mwyn annog pobl ifanc i aros yn yr ardal.

“Wrth wraidd hyn i gyd y mae’r angen i gynnal ac amddiffyn ein tirwedd a’n hamgylchedd naturiol. Os na fyddwn yn gwneud hyn yna byddwn yn colli ein mantais naturiol.”





# dyffryn silicon ym mangor

*Mae'n anodd dychmygu llifogydd yn byrlymu ar hyd strydoedd y Rhyl.*

Dychmygwch pe byddai'r Comisiwn Coedwigaeth yn awyddus i deneuo Coedwig Niwbwrch a thorri chwarter y coed, neu fwy, i lawr.

A allwch chi ddychmygu sut yr oedd y fryngaer o'r Oes Haearn yn Ninas Dinlle yn edrych?

Os yw eich dychymyg yn cael trafferth creu'r darluniau yma, yna gall CAST helpu.

Mae'r Centre for Advanced Software Technology, is-gwmni y mae Prifysgol Bangor yn berchen yn llwyr arno, wedi'i leoli yn 'nyffryn silicon' bychan Gogledd Cymru ei hun, ar Barc Menai, y parc busnes ym Mangor.

Mae'r Prif Weithredwr Karen Padmore yn arwain tîm o arbenigwyr yn is-adran delweddu'r adeilad uwch-dechnoleg 6,500 metr sgwâr, a fydd yn troi'r hyn rydych yn ceisio'i ddychmygu yn realiti 3D.

"Fe wnaethom lunio'r model llifogydd ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych," meddai Karen. "Roedd yn darlunio glan-y-môr y Rhyl ac fe wnaethom ddangos yr hyn fyddai'n digwydd pe byddai yna lifogydd mawr."

Roedd un o'r modelau lliniaru llifogydd yn cynnwys adeiladu grisiau mawr, a fyddai'n arwain i'r traeth ond hefyd yn gallu atal ymchwydd y llifogydd rhag ei olchi ymaith.

Meddai Wayne Hope, Uwch Beiriannydd Cyngor Sir Ddinbych: "Mae wedi profi i fod yn arf cyfathrebu pwerus ac ers hynny fe'i defnyddiwyd mewn sawl ffordd. Edrychwn ymlaen at barhau i ddatblygu ein perthynas gyda CAST."

Bellach mae CAST yn gweithio ar fodel tebyg ar gyfer Bae Colwyn ac un arall i godi ymwybyddiaeth o lifogydd ym Mhwllheli ar gyfer Cyngor Gwynedd.

Sefydlwyd CAST Cyf yn 2005 ac mae'n rhan o rwydwaith Techniwm Cymru, cyfres o safleoedd uwch-dechnoleg sy'n cynorthwyo, yn cynnal ac yn datblygu busnesau technoleg.

Meddai Colin Morris, Rheolwr Cynnal Busnes i Gyngor Gwynedd: "Dyma'r math o gyfleusterau sy'n perthyn i'r unfed ganrif ar hugain na fyddech, o bosib, yn disgwyl eu gweld yng nghefn gwlad Gogledd Cymru. Efallai fod gennym rai o'r golygfeydd mwyaf ysblennydd yn y DU ond mae gennym hefyd arbenigedd aruthrol ym maes technoleg a'r seilwaith i'w ategu."

Ar Ynys Môn bu CAST yn gweithio gyda'r Comisiwn Coedwigaeth i ddangos yr effaith y byddai torri coed yn ei gael dros yr 20 mlynedd nesaf yn Niwbwrch. Mae eu rhestr gleientiaid gynyddol yn cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Swydd Efrog, First Hydro, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Menter Môn, Awyrofod Cymru a Cotswold Canals (sy'n dangos beth fyddai ailgysylltu'r gamlas arAfon Hafren yn ei olygu).

Mae CAST hefyd wedi bod yn achubiaeth i raddedigion lleol â



chymwysterau uchel a fyddai, o bosib, wedi gorfod gadael Gogledd Cymru i ddod o hyd i waith addas. Mae un, a oedd yn teithio i Fanceinion, bellach wedi dod o hyd i swydd ei freuddwydion ar stepen ei ddrws.

**www.techniumcast.com**



Karen Padmore gyda Guy Barlow, ar y dde, Rhys Davies a Dominic Haynes, ar y chwith.

# 6 phwys o ddirgelwch



"Mae'n ddadleuol a yw'r hufen iâ yn dal yn cynnwys rysáit cyfrinachol Dafydd o 6 phwys o ddirgelwch, ond yn sicr, mae'n dal i gael ei lefrith, ei fraster a'i hufen o Hufenfa De Arfon."

Pan fydd hufen iâ yn gwerthu'n dda er ei bod yn ddechrau'r flwyddyn ac yn rhewi'n galed, rydych yn gwybod bod y busnes yn ddiogel.

O ddiwydiant cartref a ddechreuodd yng nghysgod Castell Cricieth ym 1927, mae cwmni Cadwalader's wedi blodeuo'n fusnes sydd ag 11 man gwerthu a 70 o staff parhaol, yn cynyddu i 120-130 yn ystod yr haf.

Mae Richard Gloster, Prif Weithredwr y cwmni sydd â'i bencadlys a'i gyfleusterau cynhyrchu ar y Parc Amaeth yn Llanystumdwy, ger Cricieth, yn rhagweld y bydd yn agor pedwar man gwerthu newydd yn ystod y pedair blynedd nesaf.

Ac mae'r busnes teuluol traddodiadol bellach yn dechrau defnyddio'r rhyngrwyd a'i safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, er mwyn cynyddu gwerthiant.

David a Hannah Cadwalader a sefydlodd fusnes Cadwalader's Ice Creams, dros 80 o flynyddoedd yn ôl, yn Stryd y Castell, Cricieth. Mewn siop bob dim oedd hynny a datblygwyd yr ochr hufen iâ gan un o'u meibion llawn bywyd, Dafydd, ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Pan fu farw Dafydd ym 1983 prynwyd Cadwalader's gan deulu'r Andrews. Datblygodd eu busnes yn Ne Cymru, a sefydlwyd gan hen hen daid Mr Gloster, yr entrepreneur Fictorianaidd Solomon Andrews, i fod yn Castle Leisure, sydd bellach yn chwaer-gwmni i Cadwalader's.

Mae'n ddadleuol a yw'r hufen iâ yn dal yn cynnwys "rysáit cyfrinachol Dafydd o 6 phwys o ddirgelwch", ond yn sicr, mae'n dal i gael ei lefrith, ei fraster a'i hufen o Hufenfa De Arfon.

Gan fod ymhell dros filiwn o gonau hufen iâ yn cael eu llenwi bob blwyddyn, mae'n rysait llwyddiannus, sy'n egluro pam yr ymddangosodd un o'i gaffis ymysg y deg parlwr hufen iâ gorau yn y DU, mewn un papur newydd cenedlaethol.

Mae Cadwalader's wedi derbyn cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd ac meddai'r Rheolwr Cynnal Busnes, Colin Morris: "Mae'n grêt eu gweld nhw'n creu swyddi newydd ac yn mentro i feysydd newydd.

"Maen nhw'n seiliedig ar ddiwydiant hynaf Gwynedd, amaethyddiaeth, a dyna yw cyfrinach llwyddiant Cadwalader's – cymryd cynnyrch traddodiadol a rhoi blas deniadol, modern iddo."

Er bod gan y cwmni ymhell dros 40 math gwahanol o hufen iâ, mae'n dal i roi pwyslais mawr ar arloesi a phob amser yn chwilio am flasau newydd.

Un o'r datblygiadau newydd mwyaf cyffrous, yn ôl Mr Gloster, yw symud i faes e-farchnata. Gellir lawrlwytho talebau oddi ar y we a gellir defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol i gyrraedd pobl ifanc 20-30 oed.

Trwy ddefnyddio'r we gallant ganolbwyntio ar radiws o 50 milltir o gaffis arbennig trwy anfon taflenni atynt. Gallant hefyd gadw golwg am ddigwyddiadau sy'n denu llawer o sylw, megis lansio cyfres newydd ar y teledu, a chysylltu cynhyrchion â hynny.

"Mae'n rhy fuan i ddweud sut y bydd pethau'n mynd ond yn sicr, mae'n gyffrous ei wylio," meddai Mr Gloster.





www.cadwaladersicecream.co.uk





# kk yn trechu ei gystadleuwyr

*"Astudio gwleidyddiaeth oedd fy mwriad gwreiddiol, ac yn sicr, doeddwn i ddim yn gallu coginio!"*

Bellach mae merch yn ei harddegau a ddaeth o'r Dwyrain Canol, priodi Cymro, a rhedeg diwydiant cartref o'i chegin yng Ngogledd Cymru, yn bennaeth ar fusnes bwyd gwerth £13 miliwn y flwyddyn sy'n cyflogi 170 o bobl.

Leyla Edwards, sy'n dod yn wreiddiol o Sawdi Arabia, yw rheolwr gyfarwyddwr KK Fine Foods, un o brif gyflenwyr prydau parod wedi'u rhewi'r DU a chwmni sy'n tyfu er gwaethaf y dirwasgiad.

O wneud ychydig o brydau llysieuol yng nghegin ei chartref yn Afonwen a'u gwerthu i siop deli leol yn yr Wyddgrug wrth iddi hefyd ofalu am ei thri phlentyn, mae gan Leyla erbyn hyn ffatri fwy na 100,000 troedfedd sgwâr ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy ac mae'n cynhyrchu dros 360 gwahanol fath o brydau parod.

"Rydym yn datblygu cynhyrchion newydd drwy'r amser," meddai, "ac rydym newydd guro llawer o gwmnïau o India i ennill contract pwysig i gyflenwi'r gadwyn o dafarndai, Whitbread, ar gyfer eu nosweithiau cyri."

"Un o Sawdi Arabia ydw i. Deuthum yma i orffen fy addysg gyda'r bwriad o ddychwelyd yno. Ond yna fe wnes i gyfarfod fy ngŵr a dyna ddiwedd ar y cynllun yna: priodais yn 19 oed.

"Fe wnaethom symud i Afonwen ger yr Wyddgrug ac rydym yn byw yno ers 30 o flynyddoedd. Astudio gwleidyddiaeth oedd fy mwriad gwreiddiol, ac yn sicr, doeddwn i ddim yn gallu coginio!"

Gan ei bod yn byw yn wlad ac yn rhoi ei holl sylw i'w thri phlentyn, prin iawn oedd y posibiliadau i Leyla.

"Bod yn hunangyflogedig oedd yr unig ddewis. Meddyliais y byddwn yn dechrau coginio; roeddwn wedi cael fy magu ar flasau ardderchog a phenderfynais ddysgu coginio. Yna dechreuais werthu i siopau deli lleol a phwy bynnag fyddai'n fodlon prynu fy nghynnyrch.

"Roeddwn yn arfer mynd o gwmpas siopau bwyd, siopau deli a hyd yn oed glybiau gweithwyr neu westai os oeddwn yn pasio."

Ffurfiodd hi a mam ifanc arall bartneriaeth a rhentu ffreutur mewn ffatri cyn agor eu huned ddiwydiannol gyntaf ger y Fflint.

Daeth eu cyfle mawr cyntaf pan siomwyd un o'r bragdai, Bass, gan ei gwmni cyflenwi cynhyrchion llysieuol a daeth KK i'r adwy.

Erbyn hyn maen nhw'n cyflenwi cleientiaid pwysig fel Whitbread, Wetherspoons, Compass, Cafe Rouge a Marstons.

Prynodd Leyla siâr ei phartner yn 2001 ac yn 2002 adeiladodd y ffatri gyntaf ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Ei mab, Samir, yw rheolwr masnachol KK erbyn hyn a'i merch, Rawia, yw'r rheolwr datblygu busnes. Mae ei merch arall, Nadia, yn gweithio i gwmni gwerthu eiddo yn Efrog Newydd.

Am 16 o flynyddoedd roedd y cwmni yn cyflenwi prydau heb gig yn unig ond erbyn heddiw prydau cig yw 70 y cant o'u cynhyrchiant ac mae pedwar cogydd llawn-amser yn gweithio ar ddatblygiadau yn y Pencadlys ar Lannau Dyfrdwy, lle mae KK yn cyflogi 170 o bobl.

Leyla oedd Person Busnes y Flwyddyn Cyngor Sir y Fflint yn 2009 ac yn 2007 roedd yn un o 200 o brif ferched busnes y DU a wahoddwyd i gael cinio canol dydd gyda'r Frenhines ym Mhalas Buckingham.

Mae KK wedi ennill llu o wobrau am ei gynnyrch, am arloesi ac am y ffordd y mae'n trin ei staff – mae ei drosiant staff yn isel iawn a'i lefelau salwch yn eithriadol o isel a phan gyflogodd y cwmni weithwyr o Wlad Pwyl darparodd wersi Saesneg iddyn nhw.

Mae ganddi berthynas wych gyda'i chymdogion, Toyota ac mae wedi mabwysiadu eu hathroniaeth o Welliant Parhaus.

"Mae hyn yn gweithio i ni ac mae'n hyfryd pan fyddwch yn mynd i gyfarfod i drafod problem, a bod honno eisoes wedi'i datrys."

**www.kkfinefoods.co.uk**





# cyrchfan beicio mynydd

"Os oes yna'r fath beth â dyfodol beicio mynydd ym Mhrydain, efallai mai yn Llandegla y mae hwnnw."

Mae'n swyddogol, mae Coed Llandegla ar y brig - gyda dros 200,000 o ymwelwyr y flwyddyn a mwy na 40 cilomedr o draciau, dyma yw prif ganolfan beicio mynydd Cymru.

Yn ôl pwy? Wel beibl y beicwyr mynydd, y cylchgrawn Mountain Biking UK, sydd wedi dweud mai Coed Llandegla yw'r gorau o blith dros 20 o ganolfannau yng Nghymru.

Mae tîm Oneplanetadventure sy'n rhedeg y ganolfan feicio wrth eu boddau yn clywed hynny. Mae'r ganolfan wedi tyfu i fod yn brif atyniad ymwelwyr Sir Ddinbych mewn pum mlynedd.

Yng ngeiriau'r cylchgrawn: "Our pick of Wales. No matter what you ride, Llandegla has it covered.

"If there's such a thing as the future of British mountain biking Llandegla might well be it."

Dyma'r clod diweddaraf i ddod i ran y gyrchfan yma i feicwyr mynydd, sydd wedi'i lleoli oddi ar y briffordd rhwng Wrecsam a Rhuthun yng nghoedwigoedd pinwydd Coed Llandegla.

Gall eu ceginau ymdopi â 400 o bobl y dydd ac yn ôl papur newydd yr Observer, bap cig moch Dylan Jones, y cogydd, yw'r gorau ym Mhrydain, a'r brecwast llawn yw'r gorau yng Nghymru. Ddwy flynedd yn ôl dim ond Glen Tress yn yr Alban oedd yn cael ei ystyried yn fwy o her i feicwyr o bob safon.

Gyn lleied â phum mlynedd yn ôl, yr unig bobl a oedd yn crwydro ffyrdd y goedwig fyddai coedwigwyr yn cludo coed ar gyfer UPM (United Paper Mills) Tillhill, perchenogion y goedwig, ar gyfer y ffatri enfawr sy'n gwneud papur gerllaw, yn Shotton.

Bellach mae'r llwybrau sy'n ymdroelli drwy'r coed pinwydd a sbriws yn gynefin i feicwyr a cherddwyr sy'n mwynhau her y byd awyr agored.

Gallant ddenu 1,000 o geir yr wythnos – mae hynny'n golygu rhyw 2,500 o bobl ac ar ddydd Sul prysur mae'n eithaf cyffredin gweld 1,000 o ymwelwyr yn y goedwig 1100 erw.

Dau ffrind a oedd yn feicwyr mynydd brwd, Ian Owen a Jim Gaffney, a sefydlodd Oneplanetadventure, pan oedd perchenogion y tir, UPM Tillhill yn chwilio am ddefnydd ychwanegol i'r goedwig.

Roedd y math o waith oedd yn apelio at y dyn lleol Ian, sy'n dod o Fwlchgwyn rhyw ychydig i fyny'r ffordd, a Jim, a oedd yn gweithio fel swyddog beicio mynydd Cyngor Sir Ddinbych bryd hynny.

Roedd Jim, 42, newydd ddychwelyd o fod y dyn cyntaf o Brydain i feicio ar draws mynyddoedd yr Himalaya. Meddai: "Roedd arna'i angen gwneud rhywbeth cyn dechrau ar daith feicio o amgylch y byd - dyna'r freuddwyd o hyd.

"Roedd UPM Tillhill am i ni lunio cynllun busnes ac eisteddodd Jim a minnau i lawr a gwneud ein gorau ond roeddem yn gwybod cyn lleied nes i ni anghofio am Dreth ar Werth ac roedd ein ffigyrau i gyd 17 a hanner y cant allan ohoni."

Ond fe wnaethon nhw ddigon i greu argraff ar UPM ac roedd eu gwybodaeth a'u brwdfrydedd yn gwneud i fyny am eu diffyg profiad rheoli.

Sylweddolodd Prif Swyddog Adfywio Ardal Cyngor Sir Ddinbych, Sue Haygarth, mor benderfynol oedd y ddau, ac meddai: "Mae Coed Llandegla yn enghraifft berffaith o fusnes yn gwireddu ei freuddwyd drwy arbenigedd a phenderfyniad.

"Mae ganddyn nhw amgylchedd naturiol rhagorol ar gyfer beicio ond y gamp yw sylweddoli bod ganddyn nhw'r adnodd rhagorol yna a bod â'r wybodaeth i fanteisio arno a gwneud i bethau ddigwydd a bod a pherchenogion llawn cydymdeimlad, sef UPM Tillhill, sydd wedi caniatáu iddyn nhw ddatblygu'r busnes."



Roedd y gaeaf gwaethaf mewn dros 30 o flynyddoedd yn fygythiad i'r busnes, pan gaewyd y llwybrau yn Llandegla am wythnosau gan hyd at ddwy droedfedd o eira. Roedd Ian a Jim yn amcangyfrif eu bod wedi colli £100,000 o ganlyniad i hynny.

Ond maen nhw'n goresgyn y storm ariannol ac yn buddsoddi £1 filiwn o'r newydd yn y ganolfan a'r llwybrau newydd, yn cynnwys trac reidio rhydd eithriadol o gyflym yn ogystal ag ardal sgiliau newydd fawr, a agorwyd yn ddiweddar gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru, Ieuan Wyn Jones.

Meddai Ian: "Mae ein cwsmer nodweddiadol yn 39 oed, yn byw yn Stockport, yn gyrru Audi A3 ac yn ennill rhyw £50,000 y flwyddyn ond dydi hynny ddim yn golygu nad ydan ni'n darparu ar gyfer pawb arall."

Mae pawb arall yn cynnwys rhai tebyg i'r teulu Atherton anhygoel o Groesoswallt, Gee, Dan a Rachel, sydd i gyd yn bencampwyr, a Jason Rennie, ateb Cymru i Evel Knievel a deilydd y record am naid foto-beic orau'r byd o fwy na 250 troedfedd, hyd yn ddiweddar.

Jason sy'n gyfrifol hefyd am record pellter y byd o 134 troedfedd ar gyfer beic a gwnaeth hynny yn Llandegla yn 2008, yn cael ei dynnu gan foto-beic nes iddo gyrraedd 85 milltir yr awr pan ollyngodd y rhaff a saethu i fyny'r ramp.

Bydd yn dod i Landegla'n rheolaidd i greu llwybrau newydd ac mae'n gefnogwr brwd, ac yntau'n adnabod Ian Owen er pan oedd yn blentyn.

Gweithio'n galed i wella pethau yw'r allwedd i'r hyn y mae Oneplanetadventure wedi'i gyflawni ond yn ôl Ian, roedd ganddyn nhw rai manteision amlwg o'r dechrau.

"Rydym o fewn taith ddwyawr mewn car i draean o boblogaeth y DU," meddai, "Rydw i wedi bod yn ddigon ffodus i feicio ym mhob cwr o'r byd a phob tro rwy'n dychwelyd rwy'n sylweddoli cystal yw'r beicio yma."

**www.coedllandegla.com**

Am y naid uchel: partneriaid Oneplanetadventure Jim Gaffney, chwith ac Ian Owen, gyda'r beicwyr Jason Rennie a Mei Black yn yr awyr.





# rasio ymlaen

*Mae'r heulwen yn disgleirio oddi ar Fôr Iwerddon ac yn y pellter mae copa'r Wyddfa yn sbecian drwy'r cymylau, tra bod brain coesgoch yn nythu ar y tir sydd wedi'i amddiffyn o'ch cwmpas.*

Mae Trac Môn - y trac rasio ceir ar Ynys Môn - yn gosod safon newydd ym myd chwaraeon modur, sy'n llyncu tanwydd, wrth iddo anelu i fod y trac rasio carbon niwtral cyntaf yn y byd.

Mae gan y trac ar Ynys Môn eisoes dyrbin gwynt ac mae'n gwerthu trydan yn ôl i'r Grid Cenedlaethol ac mae ei agwedd ecogyfeillgar at ddatblygu yn golygu ei fod yn cystadlu â'r Atlanta Motorsports Park yn Georgia, UDA, am deitl y trac carbon niwtral cyntaf yn y byd.

Ac er bod ceir neu feiciau modur drud yn rasio fel y gwynt o gwmpas y trac, ni ellir gwadu mai Trac Môn, gyda'i olygfeydd o Eryri a Môr Iwerddon a'r tir gwyddonol bwysig sy'n ei amgylchynu, yw'r trac sydd wedi'i leoli yn y llecyn harddaf yn y DU.

Yn wir mae Trac Môn yn Nhŷ Croes wedi ennill Gwobr flynyddol flaenllaw Cymdeithas Dwristiaeth Ynys Môn yn y categori twristiaeth a'r amgylchedd.

Gwnaed llawer o waith ar y trac pan aeth y cwmni ati i adeiladu trac newydd 12 metr o led sy'n golygu ei fod yn cyd-fynd â'r safon a geir ym mhrif leoliadau rasio'r wlad – ym Mhrydain, dim ond Silverstone, ar 15 metr, sy'n lletach.

O ystyried ei leoliad ar glogwyni'r arfordir gorllewinol, dywed swyddog y wasg y cwmni, Andrew Môn Hughes eu bod wedi penderfynu cloddio am y deunydd oedd ei angen ar gyfer is-sylfaen y trac, gan arbed miloedd o deithiau lori ar hyd ffyrdd cul yr ynys wrth wneud hynny.

Dynodwyd dau safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA) ar dir cyfagos, ar ôl sefydlu'r trac. Trawsblannwyd grug a gosodwyd wyneb asffalt y trac yn oer er mwyn arbed ynni - a'i osod gan Jones Brothers o Ruthun i fod o fewn goddefiant anhygoel o 3mm, sy'n golygu bod un o'r arwynebau rasio mwyaf llyfn ym Mhrydain i'w gael ar Ynys Môn.

"Mae gennym ein tyrbin gwynt ein hunain hyd yn oed, sy'n cynhyrchu rhywfaint o ynni a gallwn bwmpio rhywfaint yn ôl i'r grid ac rydym yn gweithio tuag at ddod yn garbon niwtral - mae'n ras rhyngom ni ac Atlanta Motorsports park i ddod yn gyntaf," meddai Andrew, sy'n dweud mai diddordeb cyfarwyddwr y cwmni, George William Meyrick ym mholisïau amgylcheddol y cwmni oedd yn gyfrifol am yr agwedd werdd.

Dywedodd Jon Pinnington, Rheolwr Datblygu Busnes Cyngor Ynys Môn: "Mae'n ardderchog fod y trac yn gallu ymdoddi i'r amgylchedd mor naturiol a'i rannu mor ddedwydd gyda rhywogaethau adar prin, ysgyfarnogod a gloÿnnod byw.

"Dyna beth rydym yn ceisio'i feithrin yma, y dechnoleg ddiweddaraf yn bodoli ochr yn ochr â'n cefn gwlad a'n harfordir naturiol hardd."

Mae'r trac yn rhan o Ystâd Bodorgan. Yn union ar ôl yr Ail Ryfel Byd, aeth y Weinyddiaeth Amddiffyn ati i brynu'r tir lle mae'r trac yn orfodol, ond cynigiodd ran ohono'n ôl pan adawodd ar ddiwedd y 1980au.

Awgrymodd y ffermwr lleol sy'n gefnogwr ralio brwd, Ned Jones, y gellid defnyddio'r ffyrdd gwasanaeth ar gyfer chwaraeon modur a dechreuwyd cynnal digwyddiadau ar ddechrau'r 1990au, gan ddenu sylw clwb beiciau modur y Wirral 100.

Dechreuwyd datblygu'r trac ar gyfer rasio o dan ddylanwad y gyrrwr Richard Peacock o Gaerwys a fu'n gweithio fel ymgynghorydd rhwng 1994-97. Cynlluniodd Richard y trac newydd ac erbyn hyn ef yw cyfarwyddwr gweithrediadau'r safle. Ef hefyd sy'n rhedeg Canolfan Perfformiad Gyrru'r safle.

Creodd buddsoddiad sylweddol o £4.2 miliwn, a ddenodd gefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, drac rhyngwladol 2.1 milltir, trac arfordirol 1.55 milltir, trac cenedlaethol 1.55 milltir a thrac clybiau 0.8 milltir, a gynlluniwyd i herio gyrwyr amatur a phroffesiynol fel ei gilydd.

Gyda'i gefndir godidog, mae Trac Môn yn ffefryn ymysg llawer o'r cylchgronau moduro a beiciau modur arbenigol ac yn ffefryn arbennig i dîm y rhaglen deledu, Fifth Gear.

Caiff ei ddefnyddio'n rheolaidd hefyd gan gwmnïau sydd am brofi eu cynhyrchion wrth i geir trydan a beiciau modur trydan wneud eu ffordd o gwmpas y trac, ynghyd â char rasio Fformiwla 1 Benetton.

Mae'r Ganolfan Perfformiad Gyrru yn rhedeg ers 32 o flynyddoedd ac wedi denu cwsmeriaid o bob cwr o'r byd.

Er na fydd Ynys Môn fyth yn lleoliad F1, mae Andrew yn credu bod denu rhai o'r digwyddiadau mawr eraill ar y calendr, fel y British Superbikes a Fformiwla 3, yn sicr o fewn cyrraedd.

***www.angleseycircuit.com***










# gwneuthurwyr gwydr 'gwyrdd'



***Bydd rhaid i Ed Burke roi pinsiad iddo'i hun ambell fore i wneud yn siŵr nad breuddwyd yw'r cyfan.***

Mae'n byw ac yn gweithio mewn pentref deniadol yng Ngogledd Cymru, yn gwneud y gwaith y mae'n ei garu, sef creu llestri gwydr hyfryd, gyda'i deulu cyfan yn cymryd rhan yn y busnes sy'n llwyddo i werthu ei gynhyrchion dros y byd i gyd.

"Dod i Ogledd Cymru oedd y cam gorau erioed i ni," meddai Ed, sy'n hanu o Sunderland.

Ac mae bywyd newydd gymryd tro arall er gwell – a mwy proffidiol – ers i Gyngor Wrecsam helpu i dalu hanner cost ei ddeunyddiau trwy Brosiect Grant Datblygu Gwledig Amaethyddol Ewropeaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae hynny wedi galluogi Ed i adeiladu ffwrnais fodern yn E&M Glass, y cwmni a sefydlodd ef a'i wraig Margaret, a anwyd ym Mhenbedw, ym mhentref Tallarn Green i'r de o Wrecsam yn ôl ym 1988.

Mae deunyddiau newydd sy'n gwneud defnydd mwy effeithiol o wres yn y ffwrnais wedi gostwng eu biliau trydan o ryw £900 y mis i £194 ac yn golygu eu bod yn defnyddio rhyw draean yn llai o nwy Propan.

Yn fuan ar ôl terfysgoedd Brixton yn yr 80au y penderfynodd yr artistiaid gwydr dawnus, Ed a Margaret, a gyfarfu a graddio gyda'i gilydd yng Ngholeg Polytechnig Gogledd Swydd Stafford, nad oedden nhw am ddal ati i weithio i chwythwyr gwydr eraill yn Llundain a'u bod eisiau rhywle gwell i fagu Charlie, eu baban, y cyntaf o'u tri mab, sydd newydd raddio - mewn dylunio gwydr.

"Aethom ati i chwilio am le braf i fyw. Pan oeddem yn y coleg roeddem yn arfer mynd am dro i lefydd hardd yn y car ar benwythnosau ac roedd hon yn un o'r ardaloedd yr oeddem yn arfer gyrru iddi.

"Fy nhad-yng-nghyfraith ddaeth o hyd i'r lle yma, ac roedd yn ddelfrydol," meddai Ed.

Yr hyn a ganfu oedd hen fecws y pentref yn Tallarn Green, a oedd yn cynnwys bwthyn a hen siop. Gyda benthyciad a chymorth gan gyn Awdurdod Datblygu Cymru, aeth Ed a Margaret ati i drosi'r becws yn stiwdio dros gyfnod o ryw 10 mis.

Bydd Charlie, 23, a'u dau fab arall, Tim, 16, a Josh, 8, yn helpu pryd bynnag y gallant ac mae'r cwmni yn cyflogi tri gweithiwr llawn-amser ac un rhan-amser.

Dywedodd y Cynghorydd Rodney Skelland, aelod arweiniol Cyngor Wrecsam ar gyfer adfywio a llywodraethu corfforaethol: "Mae bob amser yn galonogol clywed am gwmnïau lleol yn ffynnu - yn enwedig pan fydd y bobl dan sylw mor angerddol am eu gwaith ac am Wrecsam fel lleoliad i'w busnes.

"Mae'r Cyngor yn cefnogi busnesau lleol mewn sawl gwahanol ffordd – o gyngor ac arweiniad i helpu i gael gafael ar grantiau a hyfforddiant – felly mae bob amser yn codi calon rhywun i glywed am lwyddiannau fel E&M Glass."

Roedd Ed yn angerddol am chwythu gwydr erioed felly dydi byw a gweithio yn gwneud hynny bob awr o'r dydd a'r nos ddim yn broblem. Oni bai ei fod yn ennill ei fywoliaeth yn gwneud hynny, dyna fyddai ei hobi.

Mae Ed a Margaret yn gwneud gwydrau ar gyfer y bwrdd bwyd, sy'n gonglfaen i'r busnes, yn ogystal â darnau arbennig a roddir fel gwobrau – maen nhw wedi derbyn comisiynau ar gyfer y Gyfnewidfa Stoc. Maen nhw hefyd yn gwneud terfyniadau gwydr a chomisiynau arbennig ar gyfer orielau ac amgueddfeydd.

Er bod 25% o'r busnes bellach yn deillio o'r rhyngrwyd, nid oedd yn hawdd sefydlu'r busnes, golygodd dreulio misoedd lawer yn teithio i'r Unol Daleithiau, y Dwyrain Canol, Japan ac Ewrop - unrhyw le yr oedd yna farchnad.

Bydd rhai o brif siopau'r UDA, fel Bloomingdales a Saks, yn gwerthu eu cynnyrch ac mae ganddyn nhw archebion ar gyfer anrhegion i gyfarwyddwyr American Express.

> "Daethom yma am ei bod yn hardd, a dyma'r cam gorau erioed i ni"



Meddai Ed: "Y peth braf amdano yw eu bod yn gwybod mai ni sydd wedi gwneud darn o waith.

"Mae'r rhan fwyaf o'm ffrindiau yn y busnes gwydr yn gweithio mewn unedau diwydiannol, sy'n effeithlon iawn, heb os nac oni bai. Ond gallaf fi agor drws neu ffenest ac edrych i lawr ffordd un trac gyda choed o'i phoptu tuag at bont fechan. Rwy'n meddwl ein bod yn gwneud pethau mwy deniadol oherwydd ein hamgylchedd.

"Daethom yma oherwydd ei bod yn hardd, a dyma'r cam gorau erioed i ni," meddai Ed.

***www.handmadeglass.net***

# gwydr gyda'r gorau

*Ffenestri wedi torri a photeli gwin gwag oedd yr ysbrydoliaeth i ddynes fusnes lwyddiannus sydd wedi lansio ei detholiad ei hun o emwaith eco-gyfeillgar cywrain ac unigryw wedi'i wneud o wydr wedi'i ailgylchu.*

Yn y gweithdy yng nghefn ei siop yn Abergele, bydd Gaenor Roberts yn trawsnewid deunyddiau crai dieisiau yn grogaddurnau a chlustdlysau hardd a choeth, fel rhan o'i chwmni gemwaith ffyniannus.

Gan ddefnyddio darnau o wydr wedi torri, cyrlio edafedd o gopr o hen wifrau trydan a phethau y gallech eu darganfod mewn unrhyw hen ddrôr yn y tŷ, fel wasieri, mae Gaenor, 39, sy'n fam i dri, wedi datblygu a mireinio ei sgiliau fel artist gwydr.

Daeth y syniad o ddefnyddio gwydr wedi'i ailgylchu wrth iddi feddwl sut i wneud ei busnes, o'r enw 'tlws' yn fwy amgylcheddol-gyfeillgar.

Derbyniodd grant o bron i £2,000 i brynu dwy odyn gan Weithredu Busnes Gwledig Partneriaeth Wledig Conwy a ariennir gan Gynllun Datblygu Gwledig 2008-2010 ac meddai, "Roedd yn gam eithaf mentrus, yn enwedig gan nad oeddwn i erioed wedi torri darn o wydr o'r blaen, ond roeddwn yn teimlo bod gan y Cyngor ffydd ynof fi ac felly y dylwn fynd amdani."

Dywedodd Trefor Rowlands, Cynghorwr Busnes Cyngor Conwy: "Mae Gaenor eisoes wedi profi, yn sgil ei ffigyrau gwerthiant anhygoel, fod ganddi lygad graff am y math o emwaith a fydd yn gwerthu'n dda ac roedd yn ymddangos yn naturiol ac yn rhesymegol iddi ddechrau creu ei dyluniadau a'i hamrywiaeth ei hun o gynnyrch."

Ychwanegodd Gaenor: "Rydych yn gweld fel teulu gymaint o wydr sy'n cael ei daflu i finiau ailgylchu felly meddyliais y byddai'n syniad ceisio'i ddefnyddio. Roedd fy nhad yn cael madael ar ffenest felly dyma fi'n ei dwyn oddi arno!"

Ac felly ganwyd ei detholiad newydd o emwaith, o'r enw ecotlws, ond bu'n rhaid i Gaenor arbrofi gryn dipyn i weithio allan sut i lynu'r gwydr wedi'i ailgylchu at ei gilydd heb iddo gracio yn yr odyn.

Meddai: "Bydd gwydr newydd yn ymdoddi'n ddarn solet ond mae gwydr wedi'i ailgylchu'n edrych fel pe bai wedi cael ei ludo gyda'i gilydd, yn hytrach na'i ymdoddi.

"Mae hyn yn gwneud iddo edrych yn fwy naturiol, mae'n edrych yn fwy cyntefig. Mae pobl yn hoffi'r lliwiau naturiol, priddlyd, fel gwyrdd a brown."

**www.tlws.co.uk**



Gaenor Roberts wrth ei gwaith, gyda Trefor Rowlands, Cynghorwr Busnes Cyngor Conwy, yn ei gwylio





# John yn llygadu llwyddiant

*Mae dyn busnes llwyddiannus o Ogledd Cymru wedi herio ei anabledd i greu cwmni llwyddiannus gwerth miliynau lawer o bunnoedd.*

Collodd John Dale ei olwg pan oedd yn 11 oed ond 53 o flynyddoedd yn ddiweddarach ef yw pennaeth John Dale Cyf, cwmni papur sidan sydd wedi'i leoli yn y Fflint, sy'n cyflogi dros 50 o bobl, ac a welodd drosiant o fwy na £6.5 miliwn y llynedd.

Dyma gyrhaeddiad anhygoel i'r dyn 64 oed o Fynydd y Fflint ac os nad yw hynna'n ddigon anhygoel – pan fydd eisiau ymlacio bydd yn neidio ar gefn ei feic – mae hyd yn oed wedi beicio o Land's End i John O'Groats.

Ddim yn ddrwg i fachgen ifanc a gollodd ei olwg yn 11 oed ac a adawodd yr ysgol i weithio mewn swydd ddiflas cyn iddo ef a'i wraig Pauline fentro i fyd busnes yn gwerthu leinin clytiau babi wedi'u gwneud gartref o amgylch marchnadoedd Sir y Fflint.

"Collais fy ngolwg yn 11 oed," eglurodd, "roedd gen i dyfiant ar un llygad a chafodd hwnnw ei godi ac yna yn 11 oed rwy'n eithaf sicr i'm retina ddatgysylltu, naill ai oherwydd i mi gwympo oddi ar fy meic neu redeg i mewn i wrych, y math o bethau gwirion y bydd hogiau 11 oed yn eu gwneud.

"Ond ar ôl gadael yr ysgol roeddwn yn ffodus o gael swydd mewn ffatri bapur ym Mhenarlâg. Roedd yn swydd hynod o ddiflas ond roedd yn swydd, ac roeddwn yn ddiolchgar iawn amdani."

Cafodd ei wneud yn ddi-waith, ond rhaid dweud ei fod ef a'i wraig Pauline yn bâr dyfeisgar.

Meddai: "Fe wnaethom ddechrau benthyg arian i brynu bagiau papur a pholythen a'u gwerthu o gwmpas y marchnadoedd. Byddem yn gwneud digon o arian i ad-dalu'r hyn roeddem wedi'i fenthyg ac ychydig dros ben.

"Fe wnaethom brynu rhyw bapur arbennig a oedd yn cael ei wastraffu. Roedd yn ymestyn ac yn amsugnol iawn felly dyma ddechrau gwneud leinin i glytiau babi ohono."

Meddai Pauline, wrth edrych yn ôl: "Fe wnaethom ddechrau yn y sied yn yr ardd gyda guillotine a chyllell Stanley cyn symud i hen adeilad fferm."

Erbyn hyn mae'r busnes wedi'i leoli mewn ffatri fodern, 60,000 troedfedd sgwâr gyda'r offer cynhyrchu soffistigedig diweddaraf. Maen nhw'n cyflenwi cewri fel Morrisons a Superdrug yn ogystal â'r gadwyn archfarchnadoedd Booths yng ngogledd orllewin Lloegr a siopau disgownt fel Home & Bargain a B & M Stores. Mae eu nwyddau hyd yn oed wedi cael eu hallforio i Libya.

Dros y blynyddoedd mae Cyngor Sir y Fflint wedi rhoi cefnogaeth iddynt ac meddai Uwch Gynghorwr Busnes Sir y Fflint, Trish Carlin: "Mae John a Pauline wedi newid eu strategaethau busnes i gyd-fynd â thueddiadau'r farchnad ac maen nhw'n dal i fod yn ysbrydoliaeth i'r holl bobl ifanc sydd â syniadau busnes ond sydd heb yr hyder i gyflawni."

Yn sicr, nid yw John yn gwneud môr a mynydd o'r ffaith ei fod yn ddall: "Bod â phobl dda o'ch cwmpas yw'r gyfrinach," meddai.

"Mae gennym ni bobl hyfryd yma sy'n awyddus i aros gyda ni. Rydym fel teulu felly dydw i ddim yn meddwl am ymddeol. Byddwn yn methu'r cyfan ormod."

Mae John, a dderbyniodd MBE ym 1996 am wasanaethu diwydiant, yn dal i fwynhau mynd am beint tawel a cherdded ei gŵn, yn ogystal â mynd am reid tandem wythnosol gyda'i gyfaill, Roger Hewitt, a oedd yn yr ysgol gydag ef "pan oeddwn yn dal yn gallu gweld, ond rwy'n dal i orfod dweud wrtho ba ffordd i fynd."

***www.johndale.co.uk***



# dyfodol disglair

"Rydym yn ymfalchïo ym mherthynas agos ein staff gyda'r cwmni"

Mae ffatri yng Ngogledd Cymru yn cael gwerth o leiaf £5 mil o drydan yn rhad ac am ddim diolch i'w "gebl pŵer i'r haul."

Efallai fod Llai, ger Wrecsam, yn ymddangos yn lleoliad annhebygol i gynhyrchydd nwyddau solar mwyaf blaenllaw Ewrop, ond mae Sharp Manufacturing Company of UK yn gweithio ddydd a nos i gyflawni archebion am baneli ffotofoltaig (PV) ac mae'r dyfodol yn edrych yn fwy disglair fyth.

"Dydyn ni ddim yn gallu gwneud digon. Mae ein llyfr archebion yn llawn yn delio â'r galw o Ewrop yn unig, heb sôn am ddyfodol y farchnad yn y DU," meddai Steve Crewe, Rheolwr Adnoddau Dynol a Materion Cyffredinol, sydd wedi gweithio i Sharp yn Llai ers iddo agor yn ôl ym 1984.

Heddiw mae'r rhan fwyaf o'r 400 o weithwyr parhaol, a ategir gan staff asiantaeth, yn cynhyrchu paneli PV. Bydd hyd at 95 o'r rhain yn cael eu hallforio i Ewrop, i'r Almaen yn bennaf.

Ond gan fod y DU yn dynn ar eu sodlau yn awr yn sgil cyflwyno'r tariff bwydo-i-mewn, mae Sharp yn helpu i ddatblygu'r diwydiant solar yn y DU trwy agor canolfan addysg solar ac academi hyfforddi gosodwyr.





Steve Crewe yn y Ganolfan Solar yn Sharp, Llai

Wrth i nifer y gosodwyr solar gynyddu ledled y DU, bydd defnyddwyr yn gallu harneisio pŵer yr haul i gynhyrchu trydan trwy eu paneli solar, gan gyfrannu pŵer i'r grid cenedlaethol.

"Rydym yn gweithredu ddydd a nos a gallwn gynhyrchu mwy na 5,000 o baneli mewn pedair awr ar hugain," meddai Steve. "Rydym wedi bod yn cynhyrchu paneli ffotofoltaig yma er 2004."

Mae'r ffaith fod yr arweinydd byd Sharp wedi penderfynu buddsoddi cymaint yn ei ffatri yng Ngogledd Cymru pan ddaeth cynhyrchu fideo i ben, yn deyrnged i'r gweithlu lleol. "Roedd rhaid i ni dendro am y gwaith ac roedd y ffaith fod gennym weithlu llawn cymhelliant ac mor hyblyg yn help," meddai Steve.

Mae hefyd yn destun balchder i'r ardal yn ôl Aelod Arweiniol Cyngor Wrecsam dros Adfywio, y Cynghorydd Rodney Skelland, a ddywedodd: "Mae'r ffordd y mae Sharp wedi addasu a datblygu er mwyn cadw i fyny â'r byd yn deyrnged i weledigaeth y cwmni ac ymrwymiad a medrusrwydd y gweithlu lleol.

"Mae lleihau allyriadau carbon a'r defnydd o ynni yn un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor felly mae'n wych gwybod fod Wrecsam yn cyfrannu at helpu'r byd i harneisio ynni'r haul."

Mae gan y ffatri system 55 cilowat o baneli ar ei safle sydd wedi cynhyrchu 11 cilowat o bŵer ers iddo gael ei osod er mwyn rhoi pŵer am ddim i lawer o'i swyddfeydd a'r Ganolfan Solar newydd.

Dywed Sharp, sy'n disgrifio paneli ffotofoltaig fel "cebl pŵer i'r haul", mai pŵer solar yw'r ffynhonnell ynni bwysicaf i'r hil ddynol gan y bydd adnoddau ynni confensiynol fel olew, nwy a glo yn dirwyn i ben cyn diwedd y ganrif hon.

*www.sharpmanufacturing.co.uk*

# pŵer ar ynys môn



*Mae Ynys Môn yn dod yn bwerdy.*

Bydd hyd at 1,700 o swyddi newydd yn cael eu creu wrth i 'Ynys Ynni' ddarganfod ei bod yng nghanol economi carbon isel newydd.

Bydd ffynonellau niwclear, biomas, gwynt, llanw ac eraill yn cyfrannu biliynau o bunnoedd, yn llythrennol, tuag at werth economi'r rhanbarth rhwng rŵan a 2025.

Bydd tri phrosiect yn unig yn creu hyd at 1,700 o swyddi parhaol a 5,600 o swyddi adeiladu ar yr ynys.

Mae Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, eisoes (Meh 16) wedi llofnodi Cytundeb Cydweithredol Ynys Ynni Môn yng Ngholeg Menai ar ran Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â Chyngor Sir Ynys Môn a'i randdeiliaid allweddol, yn cynnwys Cynghorau Sir Gwynedd a Chonwy, Magnox North, Horizon Nuclear Power, Prifysgol Bangor, a'r Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Ynni Niwclear.

Cyfarwyddwr technoleg Coleg Menai, David Price, fydd yn arwain y Ganolfan Hyfforddi Ynni a Gweithgynhyrchu newydd, gwerth £4.5 miliwn, a ariannwyd yn bennaf gan y Cynulliad. Mae'r Ganolfan yn cael ei chodi yn y coleg a dylai fod yn weithredol yn ystod y 12 mis nesaf.

"Mae'n brosiect hynod o gyffrous ac rydym yn edrych ymlaen at allu dylanwadu a chyfrannu at gynaliadwyedd dyfodol cyffrous dros ben," meddai.

"Bydd ei hangen er mwyn helpu i wella lefelau sgiliau, hyfforddi ac ailhyfforddi ein pobl ifanc fel eu bod yn gallu cael swyddi o fewn y sector ynni newydd sy'n datblygu."

Bydd y ganolfan annibynnol yn darparu rhaglenni hyfforddi asesu ynni a gweithgynhyrchu, o weldio i ganolfan iechyd a diogelwch, i ardal ynni cynaliadwy i hyfforddi a gwella sgiliau pobl sydd efallai eisoes yn y busnes fel gosodwyr systemau gwresogi a pheirianwyr.

"Mae angen i ni roi'r sgiliau angenrheidiol i bobl allu gweithio mewn diwydiannau ynni cynaliadwy fel ffotofoltaig, solar, tyrbinau gwynt, gwresogi o'r ddaear a'r aer, a bydd angen i ni sicrhau staff hyfforddi arbenigol ar gyfer y rhain i gyd."

Yn nes ymlaen eleni bydd Horizon Nuclear Power Cyf yn cyhoeddi'r math o adweithydd y mae am ei adeiladu mewn gorsaf niwclear newydd yn yr Wylfa, prosiect a all ddarparu 800 o swyddi parhaol yn cynyddu i 1,000 a hyd at 5,000 o swyddi adeiladu. Mae Horizon yn gobeithio comisiynu'r adweithydd newydd erbyn 2020.

Mae Anglesey Aluminium Metals Renewables Cyf wedi gwneud cais ar gyfer gorsaf pŵer biomas newydd gwerth £600 miliwn ochr yn ochr â'i safle mwyndoddi alwminiwm, sydd newydd ei gau dros dro, yng Nghaergybi.

Byddai hwn yn un o'r mwyaf o'i fath yn y byd, yn darparu hyd at 3 y cant o drydan adnewyddadwy'r DU a gallai fod yn weithredol erbyn 2013. Mae ganddo'r potensial i gynnig hyd at 100 o swyddi gweithredol newydd a rhyw 70 yn y gadwyn cyflenwi cnydau, y ogystal â 600 yn ystod y cyfnod adeiladu.

Gallai Centrica Renewable Energy greu 525 o swyddi ychwanegol os bydd ei gynlluniau ar gyfer fferm wynt newydd naw milltir oddi ar Ynys Môn yn cael sêl bendith. Byddai'r fferm wynt 4.2GW ym Môr Iwerddon yn mesur 1,367 milltir sgwâr.

"Gallai datblygu yng nghanol Môr Iwerddon gynyddu allbwn ynni adnewyddu yn aruthrol a gallai economi a marchnad swyddi Ynys Môn elwa o ddatblygiad o'r fath oherwydd ei fod mor agos ac oherwydd y porthladd dwfn yng Nghaergybi," meddai Pennaeth Datblygu Economaidd Ynys Môn, Sasha Wynn Davies.

Yn y tymor hir mae nPower a Marine Current Turbine yn edrych ar bŵer y llanw ac yn y tymor byr bydd y Fframwaith Ynys Ynni yn gobeithio cefnogi datblygiadau ynni ar raddfa fach, fel systemau ffotofoltaig, gwynt bach, gwynt micro, dŵr poeth solar, gwres a phŵer o wastraff, hydrogen a thanwydd trafnidiaeth amgen.

Mae'r hyn y mae hyn yn ei gyfrannu i'r economi - yr hyn y mae economegwyr yn ei alw'n werth ychwanegol gros (GVA) sy'n helpu i bennu cynnyrch mewnwladol crynswth (GDP) y rhanbarth - yn gymaint â £2.3 biliwn o GVA ar Ynys Môn a gogledd orllewin Cymru yn sgil swyddi adeiladu a gweithredol a'r cadwyni cyflenwi, rhwng rŵan a 2025.

"Mae cysylltiad hanfodol rhwng cyfleoedd cyflogaeth newydd ar Ynys Môn, yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, â datblygu economi carbon isel newydd.

"Er mwyn trawsnewid yr economi sy'n tanberfformio, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio i ddatblygu ei Fframwaith Ynys Ynni gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear," meddai Sasha.

"Mae yna eisoes draddodiad cryf o gynhyrchu ynni carbon isel ar Ynys Môn, yn niwclear ac adnewyddadwy. Ochr yn ochr â photensial ac awydd heb ei ail i fanteisio ar gyfleoedd cynhyrchu ynni carbon isel yn y dyfodol, mae'r Fframwaith Ynys Ynni yn cynnig cyfle i gryfhau dyfodol economaidd yr ynys.

"Trwy integreiddio'r agendâu economaidd, amgylcheddol a sgiliau, nod Ynys Môn yw gweddnewid diwylliant a ffawd er mwyn sefydlu'r ynys fel enghraifft fyw o gynhyrchu carbon isel yn y Byd Gorllewinol," ychwanegodd

# cysylltiadau



Jon Pinnington
**Cyngor Sir Ynys Môn**
01248 752075
jonpinnington@ynysmon.gov.uk
www.ynysmon.gov.uk

Patricia Carlin
**Cyngor Sir y Fflint**
01352 703042
patricia.carlin@siryfflint.gov.uk
www.siryfflint.gov.uk

Colin Morris
**Cyngor Gwynedd**
01286 679677
colinmorris@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

Peter Scott
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
01978 292405
peter.scott@wrecsam.gov.uk
www.wrecsam.gov.uk

Sue Haygarth
**Cyngor Sir Ddinbych**
01824 708083
sue.haygarth@sirddinbych.gov.uk
www.sirddinbych.gov.uk

Linda Ford
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
01492 574501
linda.ford@conwy.gov.uk
www.conwy.gov.uk

Alistair Syme  Cyfathrebu Ceidiog  01824 703073  07758 841012  alistair@ceidiog.com

Cynhyrchwyd gan **Gyfathrebu Ceidiog**
Ffotograffiaeth a dylunio gan **Eye Imagery**

◀ cynnwys ▶

ALLAN